O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1346 (Cy. 163)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Dolwyddelan, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *27 Mai 2011*

Yn dod i rym *6 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Dolwyddelan, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno;

ystyr "y darn o'r gefnffordd"*("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 yn Nolwyddelan ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o ddiwedd y parth terfyn cyflymder 30 mya ym mhen dwyreiniol Dolwyddelan i ganolbwynt y gyffordd o'r enw Tan-aeldroch.